OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1305 (Cy.166)

IECHYD MEDDWL, CYMRU

Rheoliadau Iechyd Meddwl (Atgyfeiriadau Gofal Sylfaenol a Chymhwystra i Gynnal Asesiadau Iechyd Meddwl Sylfaenol) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - -	*15 Mai 2012*
Yn dod i rym - -	*1 Hydref 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 7(6)(a), 47(1)(a) a (2), a 52(2) o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010(**1**).

Cafodd drafft o'r offeryn hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 52(5)(b) o'r Mesur, ac mae wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

RHAN 1 —

CYFFREDINOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Meddwl (Atgyfeiriadau Gofal Sylfaenol a Chymhwystra i Gynnal Asesiadau Iechyd Meddwl Sylfaenol) (Cymru) 2012 a deuant i rym ar 1 Hydref 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i'r ymadrodd "asesiad iechyd meddwl sylfaenol" ("*primary mental health assessment*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 51(1) o'r Mesur;

ystyr "cynllun" ("*scheme*") yw cynllun y mae'n rhaid i bartneriaid iechyd meddwl lleol gymryd pob cam rhesymol i gytuno arno yn unol ag adran 2 o'r Mesur;

(**1**) 2010 mccc 7.

mae i'r ymadrodd "darparydd gofal sylfaenol" ("*primary care provider*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 51(1) o'r Mesur;

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**2**);

mae i'r ymadrodd "gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol" ("*local primary mental health support services*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 5 o'r Mesur;

ystyr "gwasanaethau meddygol sylfaenol" ("*primary medical services*") yw—

(a) gwasanaethau meddygol a ddarperir o dan Ran 4 o Ddeddf 2006 p'un ai gan—

(i) contractiwr y gwnaeth Bwrdd Iechyd Lleol gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol ag ef o dan adran 42 o'r Ddeddf honno;

(ii) person y gwnaeth Bwrdd Iechyd Lleol drefniadau ag ef o dan adran 50 o'r Ddeddf honno;

(iii) ymarferydd meddygol cofrestredig a gyflogir at ddibenion adran 41(2)(a) o'r Ddeddf honno gan Fwrdd Iechyd Lleol; neu

(iv) ymarferydd meddygol cofrestredig y gwnaeth Bwrdd Iechyd Lleol drefniadau ag ef o dan adran 41(2)(b) o'r Ddeddf honno; neu

(b) gwasanaethau meddygol a ddarperir gan—

(i) ymarferydd meddygol cofrestredig o dan drefniadau a wnaed rhwng ymarferydd meddygol cofrestredig a pherson sy'n gyfrifol am ddarparu neu redeg carchar sydd wedi ei gontractio allan (o fewn ystyr adran 84(4) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991(**3**)) yng Nghymru; neu

(ii) ymarferydd meddygol cofrestredig a gyflogir gan Wasanaeth Carchardai ei Mawrhydi yng Nghymru;

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010(**4**);

ystyr "partner iechyd meddwl lleol perthnasol" ("*relevant local mental health partner*") yw'r partner iechyd meddwl lleol sy'n gyfrifol am ddarparu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol o dan y Cynllun y cytunwyd arno o dan adran 2 o'r Mesur. Os na chytunir ar Gynllun o dan adran 2 o'r Mesur, y partner iechyd meddwl lleol perthnasol yw'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer yr ardal awdurdod lleol o dan sylw;

mae i'r ymadrodd "partneriaid iechyd meddwl lleol" ("*local mental health partners*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 1 o'r Mesur.

RHAN 2 —

ATGYFEIRIADAU GOFAL SYLFAENOL

Personau y caniateir i ddarparydd gofal sylfaenol eu hatgyfeirio i wasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol

3.—(1) Yn ddarostyngedig i adran 8(1) o'r Mesur(**5**), caiff darparydd gofal sylfaenol atgyfeirio unrhyw berson—

(**2**) 2006 p.42.
(**3**) 1991 p.53.
(**4**) 2010 mccc 7.
(**5**) Yn unol ag adran 7(1)(a) ni chaniateir i ddarparydd gofal sylfaenol atgyfeirio unigolyn sy'n dod o fewn unrhyw un o'r disgrifiadau a geir yn adran 8(1) o'r Mesur. Mae adran 8(1) yn gymwys i unigolion sy'n agored i gael eu cadw'n gaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983; unigolyn sy'n ddarostyngedig i warcheidiaeth o dan y Ddeddf honno; unigolyn sy'n glaf cymunedol o fewn ystyr "community patient" yn y Ddeddf honno ac unigolyn sy'n cael gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.